

COFNODION O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 7 GORFFENNAF 2021

Yn bresennol: Y Cadeirydd Hefin Jones.

Y Cynghorwyr: A H Jones, Elfed Jones, Helen Wyn Jones, Idwal Williams.

Hefyd yn bresennol: Elfed Roberts (Cynghorydd Sir), Karen Hughes (Swyddog Ariannol), Eirian Humphreys (Clerc).

Ymddiheuriadau: Richard Davies, Keith O'Brien, Anest Smith, Dewi Williams

2173 – COFNODION

Cyflwynwyd, cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion fel rhai cywir gan y Cadeirydd yn amodol ar faterion yn codi o gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mehefin 2021.

2174 – MATERION YN CODI O'R COFNODION

1401(3b) – Garej Lôn – Mae olew o'r ceir yn gollwng ar y ffordd tu allan i'r eiddo ac mae y perchennog yn parcio ceir ar ben yr olew i geisio ei guddio ond yn ystod glaw mae yn arllwys i'r system ddwr. Nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru am gael golwg ar y sefyllfa. Hefyd, adroddwyd nad oes gan yr Heddlu hawliau i wneud dim parthed cerbydau sydd heb dreth. Mae y Cynghorydd Elfed Roberts wedi bod mewn cysylltiad a PCSO Delyth Williams a cytunodd ail-gysylltu gyda hi.

1774(4) Gardd Sylvia Crowe a Gardd y Ddraig – Adroddwyd bod neges wedi ei dderbyn o Safle Magnox yn cadarnhau bod strwythr Gardd Sylvia Crowe wedi dirywio gormod i'w symud o'i safle presennol. Mae Magnox yn gwneud ymholiadau i geisio cael cwmni i ddylunio un newydd ar gôst eu hunain gyda'r bwriad o'i adeiladu a'i gosod ym Mryn y Gofeb.

1842(2) a 1878(7) – Cyflymder a Goleuadau Stryd Bronaber – Derbyniwyd ateg gan Tim Barnes o'r Cynulliad yn cadarnhau y bydd y Llywodraeth yn gwneud asesiad o'r A4212 a'r A470. Hefyd byddent yn edrych i mewn i'r posibilrwydd o wneud croesffordd dros yr A470 i Stesion. Ni fydd unrhyw waith yn dechrau tan 2022 ar y cynharaf. Dylor bod llinellau dwbwl gwyn trwy Bronaber. Cytunodd y Cynghorydd Elfed Roberts gysylltu a Tim Barnes a gofyn iddo fynychu cyfarfod.

1954 (1) Cae Chwarae Stesion – Cytunwyd yn unfrydol i dderbyn pris i wneud y cyfan o'r gwaith. Y Swyddog Ariannol i ofyn i Evan Thomas a'i Feibion ddechrau ar y gwaith mor fuan a phosib.

1962 (1) a 2138 - Adeiladau Cyhoeddus y Pentref – (gweler 2138) – Adroddwyd bod cyfarfod pellach wedi ei drefnu ar gyfer y 12/7/21 am 17:30. Cytunodd y Cadeirydd i anfon y manylion ymlaen i'r Cynghorwyr.

2024 (4) Damweiniau ar ffordd A470/A4212 – Adroddwyd bod Iwan ap Trefor o Cyngor Gwynedd yn edrych ar y sefyllfa.

2068 (2) Mynwent Pen Cefn – Trefn cwyno wedi ei lunio ac i'w lwytho ar wefan y Cyngor ynghyd a rheolau newydd y Mynwenydd. Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi cysylltu ymhellach a perchennog y tir cyfagos i drafod opsiynau ar gyfer pryniant y tir sydd angen yn ychwanegol. Mae y Cadeirydd wedi gofyn os yw yn bosib cael ateb erbyn mis Medi. Adroddwyd ymhellach bod gwair a chwyn yn tyfu yn uchel ar y llwybr canol a cytunwyd y byddai yn cael ei drin gyda chwynladdwr unwaith y bydd y tywydd yn caniatáu.

2085 (3) Llys Ednowain – Cadair View Lodge wedi cysylltu gyda rhestr o bethau angen eu gwneud. Ar hyn o bryd nid yw yn bosib ail-agor gan nad yw y canllawiau yn caniatau. Cytunwyd y dylai'r materion gael eu trafod rhwng Traws-Newid a Cadair View Lodge gan mai cytundeb rhyngddynt sydd yn bodoli. Adroddodd y Swyddog Ariannol nad yw y Cyngor wedi derbyn cyfrifon Traws-Newid ers tair blynedd er bod sawl cais wedi ei wneud ac o ganlyniad nid ydynt yn cydymffurfio a'r gytundeb.

2092 (4) – Parcio ger yr Ysgol – Derbyniwyd e-bost gan Dylan Wynn Jones o Gyngor Gwynedd yn nodi nad oes gan y Cyngor y pŵer i arbed neb rhag parcio ar y palmant a bod yr hawl hyn gan yr Heddlu. Adroddwyd bod yr Heddlu wedi datgan o'r blaen nad oes unrhyw beth allent wneud a mai Cyngor Gwynedd ddylai osod gwaharddiadau. Dylan Wynn Jones wedi gofyn i'r uned barcio asesu y safle. Cytunodd Y Cynghorydd Elfed Roberts i basio y manylion ymlaen i Iwan ap Trefor.

2092 (6) Llysiau'r Dial (Japanese Knotweed) – Cytunwyd ail-gysylltu gyda Cyfoeth Naturiol Cymru parthed y tyfiant wrth Afon Prysor (gyferbyn a Maesgraeu). Mae angen tynnu sylw hefyd i'r tyfiant yn Is Law'r Coed OS702373 ynghyd a gofyn beth yw eu polisi ynglyn ag eiddo preifat/heb berchennog gan bod tyfiant tu cefn i Penyarreg a chefn Y Fron.

2099 (6) Marciau Gwyn – Cysylltu a Cyngor Gwynedd a gofyn iddynt fanylu ar faes parcio y feddygfa a Bryn Glas. I'w basio i Iwan ap Trefor. Atgoffa Iwan ap Trefor.

2107 (2) Dalgylch Ysgolion – Y pwynt godwyd yn y dechrau oedd bod gorfodi plentyn fynd i ddalgylch wahanol ar ol gadael Ysgol Gynradd. Y Cynghorydd Anest Smith am edrych dros e-bost diwethaf Cyngor Gwynedd.

2107 (5) Binau y Pentref – Adroddwyd eu bod wedi eu gwagio. Cyngor Gwynedd am fonitro y sefyllfa.

2113 (1) Golau Stryd wrth y Toiledau Cyhoeddus – Y polion golau i fod yn adlewyrchu cefndir amaethyddol Trawsfynydd gyda siap ffon bugail – mae Cyngor Gwynedd wedi newid y golau i un sydd yn hollol wahanol i'r gweddill sydd yn groes i'r hyn a gytunwyd rhwng y Cyngor Cymuned a Chyngor Gwynedd flynyddoedd yn ol. Cafwyd arian grant ei ddatblygu y Sgwar. Adroddwyd bod y mater wedi ei basio i sylw Cyngor Gwynedd.

2120 (3) Dwr yn llifo ar draws ffordd Penstryd a Pant Glas – Cyngor Gwynedd yn nodi fod y gwaith wedi ei wneud ond nodwyd fod y ffordd bellach yn beryg yn dilyn y gwaith. Adrian Williams wedi adrodd y byddent yn asesu ac yn dod yn ol gyda'u sylwadau. Hefyd mae mwy o broblemau bellach gan bod y bont angen gwaith. Y Cynghorydd Anest Smith am gasglu lluniau gyda sylwadau.

2126 (3) Binau Halen – Stryd Ardudwy a Stryd Ty Llwyd wedi eu ychwanegu at restr ail-flaenoriaeth graeanu. Y maes parcio wedi ei gyfeirio at yr Adran Barcio gan nad yw'r Adran Briffyrdd yn delio a meysydd parcio. Cwynion wedi ei derbyn gan nad oedd y 'gritter' wedi bod heibio ac nid yw trigolion yn hapus bod Cyngor Gwynedd yn parhau i gyfeirio bobol yn ol at y Cyngor Cymuned gyda chwynion am y graenu gan nad oes gan y Cyngor Cymuned unrhyw gyfrifoldeb dros graeanu. Cytunwyd anfone-bost i atgoffa Cyngor Gwynedd o'r sefyllfa, hefyd mae y Cynghorydd Elfed Roberts am ei drafod ymhellach gyda Cyngor Gwynedd.

2128 (2) Cyffordd Maes Parcio – Cadarnhawyd bod drych wedi ei osod gyferbyn a'r fynedfa a cytunwyd monitro y sefyllfa am ychydig i weld os oes angen trafodaethau pellach ynglyn a tynnu y wal i lawr.

2150 (1) Stryd Gefn Bro Prysor (rhwng 1 a 6) – Cadarnhawyd bod y safle yn glir ar hyn o bryd ond cytunwyd cadw golwg ar y sefyllfa.

2161 (1) – Ffens gyferbyn cae chwarae yr ysgol/cae Dolwen – wedi dod yn rhydd ar y cylchau. Wedi ei gyfeirio i sylw Amanda Murray, Cyngor Gwynedd.

2161 (2) – Cae o dan Bryn y Gofeb a’r wal derfyn – bylchau yn y wal a peryg iddo ddymchwel. Adroddodd y Swyddog Ariannol nad oedd prisiau wedi dod i law.

2161 (4) – Cof Golofn Hedd Wyn – Adroddwyd bod Robert Williams am wneud y gwaith.

2161 (5) – Rheiliau a Gat Gardd Salem – Adroddwyd bod y gwaith wedi ei wneud a cytunwyd talu yr anfoneb. Cytunwyd gofyn i Alan Thomas basio diolch y Cyngor ymlaen i Alun Jones hefyd.

2161 (6) – Arwydd llwybr cyhoeddus ffordd Tyn Coed – Cyngor Gwynedd yn delio a’r mater.

2161 (7) Ymgymwr heb dalu anfoneb am gladdedigaeth ym Mynwent Pencefn – Adroddwyd bod llythyr wedi ei drafftio ac wedi ei anfon i’r ymgymwr.

2161 (8) – Llwybr o Stesion i Blaen Cwm – Awdurdod Parc Cenedlaethol am gysylltu a perchennog y tir.

2161 (9) – Y Dref Werdd – Adroddodd y Swyddog Ariannol nad oedd prisiau wedi dod i law.

2161 (10) – Offer Hel Sbwriel – Cynnig gwneud ymgyrch arall yn mis Medi.

2161 (11) – Peintio meinciau Bryn y Gofeb a gwneud gwaith atgyweirio - Cytunwyd derbyn pris Alan Thomas. Y Swyddog Ariannol i ofyn iddo symud ymlaen gyda’r gwaith.

2165 (1) Llys Dewi – Y goeden am gael ei thorri ac y Cyngor i adael i Adrian Williams wybod.

2165 (2) Defaid yn crwydro – Y Cyngorydd Dewi Williams i gael cyngor gan undebau ffermio.

2170 (1) Scottish Power yn torri Coed – SP heb gysylltu eto.

2171 (1) Swydd y Clerc – Hysbysiadau wedi eu gosod ond dim ymateb hyd yn hyn.

2171 (3) Gwydr wedi torri yn y maes parcio – posib bod plant yn tynnu poteli o’r banc gwydr ac yn eu taflu. Trafodwyd os oes angen y banc poteli. Cytunwyd gofyn i Cyngor Gwynedd pa mor aml mae yn cael ei wagio – rhif ffon ar y bin – y Cadeirydd am gysylltu i roi gwybod am y broblem.

2176 – GOHEBIAETH

- (1) Llythyr gan y Parchedig Anita Ephraim – cwyn am y torrwr beddi a bod dim hyblygrwydd mewn dyddiadau/amseroedd. Gyda Pritchard & Griffiths mae y cyfyngiadau ynglyn a dyddiadau sydd ar gael, nid gyda’r torrwr beddi. Y torrwr beddi chwaith ddim yn hapus i gario ymlaen gweithio gyda Pritchard & Griffiths os bydd y problemau yn parhau. Trafodwyd atgoffa Pritchard & Griffiths am y llythyr a anfonwyd iddynt yn mis Mawrth 2019 yn nodi bod angen iddynt ddilyn y rheolau sydd mewn lle. Mae y torrwr beddi wedi bod yn hyblyg iawn pob tro. Ceisiwyd yn y gorffennol i drefnu cyfarfod hefo Pritchard & Griffiths ond roedd yn cael eu ohirio gan Pritchard & Griffiths pob tro. Does dim cwynion ynglyn ag unrhyw ymgymwr arall o unrhyw ardal. Mae y torrwr beddi hefyd yn edrych ar ol y fynwent heb unrhyw dal na cais. Cytunwyd anfon llythyr i Pritchard & Griffiths (gyda chopi i’r Parchedig Anita Ephraim a’r torrwr beddi) yn pwysleisio y drefn sydd i fod mewn lle ac os oes posib i’r broses weithio heb drafferth ac erfyn ar bawb i redeg yn fwy llyfn a’u gilydd – i’w arwyddo gan y Cadeirydd.

2175 – ADRODDIAD ARIANNOL

Cadarnhawyd a derbyniwyd yr adroddiad ariannol a gyflwynwyd gan y Swyddog Ariannol. Adroddwyd bod popeth wedi ei anfon i Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer yr archwiliad allannol. Nodwyd 2 bwynt yn yr Archwiliad Mewnol

- Nad oedd y Cyngor Cymuned wedi cyfarfod erbyn 31/12/2020
- Nad oedd y Gofrestr Meddiannau yn gyflawn (maeangen gwybod pryd cafodd popeth ei brynnu a faint talwyd amdanynt).

Mae angen llwytho y rhybudd ar wefan y Cyngor yn hysbysu bod y Ffurflen Flynyddol wedi ei anfon i'r Archwilwr Allannol.

2177 - MATERION I'W TRAFOD AR Y PRYD

- (1) Dewi Lake yn ymddeol fel Pennaeth Ysgol y Moelwn/Berwyn – Llythyr o ddiolch ar ran y Cyngor, trigolion a plant Trawsfynydd am ei holl waith dros y blynyddoedd. Y Cynghorydd Elfed Roberts am ddrafftio llythyr.
- (2) Bysiau Cyhoeddus yn mynd heibio Fron Galed/Pant y Celyn/Penygarreg – bws ysgol yn llwyddo i fynd heibio felly oes posib cael bysiau cyhoeddus i fynd heibio y safleodd bws sydd yno yn barod. Y Cynghorydd Elfed Roberts wedi ysgrifennu at yr un sydd yn gyfrifol am y bysiau yn nodi bod bysiau yn gallu pasio pan oedd gwaith ffordd yn Tyn y Pistyll. Y cwmni bws yn hapus i wneud ond maent yn pryderu am geir yn parcio ar y ffordd a byddent eisiau sicrwydd byddai ceir ddim yn parcio ar hyd y ffordd. Y Cynghorydd Elfed Roberts am drafod a'r adran draffig. Mae carafan yn Penyarreg yn broblem ac y man ble mae y clawdd yn ymestyn i'r ffordd.
- (3) Bin ar Llwybr y Llyn – Y Cynghorydd Elfed Roberts wedi siarad a pherchennog Ty'n Drain ac maent yn fodlon gosod bin ar eu tir ac mae yr adran biniau yn hapus i'w wagio heb gost – cytunwyd i'r Cynghorydd Elfed Roberts fynd i drafod ymhellach gyda'r perchennog a gwneud ymholiadau parthed perchnogaeth y tir dan sylw.
- (4) Gardd Bryn Glas – y cerrig gyda mwsog drostynt a mieri yn dechrau tyfu. Cadarnhawyd bod yn bosib eu crafu. Y Cadeirydd yn fodlon mynd i edrych arno. Gofyn i'r Dref Werdd edrych arno hefyd.
- (5) Afon Prysor – graean wedi hel – Cyfoeth Naturiol Cymru yn arfer ei hel. Y Cynghorydd Elfed Roberts am gysylltu a Cyfoeth Naturiol Cymru.
- (6) Pont Prysor – coeden yn tyfu o'r wal – i'w basio i Cyngor Gwynedd.
- (7) CCTV y Ganolfan Iechyd – Adroddwyd nad yw yn gweithio. Y Cadeirydd wedi cysylltu a Bron Meirion am sut i gael gafael ar y cwmni sydd yn gyfrifol.

2178 – MATERION AR GYFER Y CYFARFOD NESAF

- (1) Trafod os oes posib cyfarfod yn y Neuadd ym mis Medi.

2179 – CYFARFODYDD YN YSTOD Y MIS

- (1) Llywodraethwyr Ysgol Bro Hedd Wyn – Adroddwyd bod holiadur wedi ei anfon i rhieni a derbyniwyd adborth da iawn. Mae canmoliaeth i'r ysgol. Mae arian ychwanegol wedi ei dderbyn o'r Cynulliad sydd yn galluogi cyflogi athrawes arall am o leiaf tymor nesaf.

CYFARFOD NESAF - 1 Medi 2021